Cyllid & Thollau EF

# Buddiannau ac asedion busnesau a phartneriaethau

Atodlen IHT413

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon os oedd gan yr ymadawedig unrhyw asedion neu fuddiant mewn busnes neu bartneriaeth fusnes a hefyd os ydych yn didynnu Rhyddhad Busnes ar ffurflen IHT400. Atebwch y cwestiynau canlynol a rhowch fanylion eraill yr ydym yn gofyn amdanynt. Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch flwch 25 ar dudalen 4.

## Rhyddhad Amaethyddol a Rhyddhad Busnes

Ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026, mae rhyddhad ar gyfradd o 100% ar werth cyfunol eiddo amaethyddol cymhwysol a/neu fusnes cymhwysol wedi'i gyfyngu i £2.5 miliwn. Bydd y gwerth hwn yn cynnwys unrhyw roddion o eiddo cymhwysol a wnaed ar neu ar ôl 30 Hydref 2024 a chyn pen 7 mlynedd i'r farwolaeth, ac eiddo arall (gan gynnwys eiddo mewn ymddiriedolaeth) sy'n cael ei drin fel rhan o'r ystâd. Pan fo cyfanswm gwerth yr eiddo cymhwysol yn fwy na £2.5 miliwn, bydd y swm sydd dros ben yn gymwys ar gyfer rhyddhad ar gyfradd o 50%. Gellir trosglwyddo'r lwfans o £2.5 miliwn sydd heb ei ddefnyddio gan briod neu bartner sifil a fu farw i ystâd y person a fu farw, ar yr amod bod yr hawliad yn cael ei wneud o fewn 4 blynedd i farwolaeth y goroeswr neu o fewn 6 mis cyntaf y cynrychiolydd yn ei rôl.

Yn ogystal, os nad yw marchnad yn cael ei chyfrif fel un 'rhestredig' at ddibenion CThEF (megis AIM), dim ond ar gyfradd o 50% y gall cyfranddaliadau a ddelir mewn cwmnïau sydd wedi'u rhestru ar y marchnadoedd hyn gymhwyso erbyn hyn.

**Enw'r ymadawedig**

**Dyddiad y farwolaeth** DD MM BBBB

**Cyfeirnod Treth Etifeddiant** os yw'n hysbys

Os oes angen, llenwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob busnes neu ased busnes. Os oedd buddiant yr ymadawedig mewn busnes yn cynnwys daliad rheoli cyfranddaliadau, peidiwch â chynnwys y buddiant hwnnw yma, rhowch ef ar ffurflen IHT412 yn lle.

## Help

Darllenwch y nodiadau arweiniol ar gyfer ffurflen IHT413 yn Nodiadau IHT400, cyn llenwi'r ffurflen hon.

I gael rhagor o wybodaeth, neu help neu gopi arall o'r ffurflen hon, ewch i www.gov.uk/inheritance-tax. Fel arall gallwch ffonio'r Llinell Gymorth Treth Etifeddiaeth ar 0300 123 1072 (Saesneg yn unig).

Os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, deialwch +44 300 200 1900.

## Perchnogaeth, contract i werthu a buddiannau busnes

**1** A oedd yr ymadawedig yn berchen ar y buddiant busnes yn y 2 blynedd hyd at ddyddiad y farwolaeth?

Na ☐ Ewch i flwch 2

Iawn ☐ Ewch i flwch 3

**2** Nid yw rhyddhad busnes fel arfer yn ddyledus os nad oedd y buddiant busnes yn eiddo i chi drwy gydol y 2 flynedd hyd at ddyddiad y farwolaeth. Os ydych chi'n teimlo bod Rhyddhad Busnes yn dal i fod yn ddyledus, rhowch wybod i ni pam

**3** A oedd y busnes cyfan neu unrhyw ran ohono, buddiant mewn busnes, neu a oedd unrhyw un o asedion y busnes, yn destun contract rhwymol i'w werthu ar ddyddiad y farwolaeth?

Na ☐ Ewch i adran 7 ar dudalen 2

Iawn ☐ Ewch i flwch 4

**4** Dyddiad y contract DD MM BBBB

**5** Manylion yr asedion a werthwyd o dan y contract

| Disgrifiad | Gwerth (£) |
|---|---|
| | |

**6** Ni ellir didynnu rhyddhad busnes ar fusnesau, buddiannau, asedion busnes neu unrhyw ran ohonynt a oedd yn destun contract rhwymol i'w gwerthu ar ddyddiad y farwolaeth oni bai eu bod yn fusnes neu'n fuddiant mewn busnes a bod y gwerthiant i gwmni sydd i gynnal y busnes, ac yn cael ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn ystyriaeth o gyfranddaliadau neu warantau yn y cwmni hwnnw. Os yw hyn yn berthnasol, nodwch y manylion.

## Busnes neu fuddiant mewn partneriaeth

**7** Beth oedd gwerth busnes neu fuddiant yr ymadawedig mewn partneriaeth ar ddyddiad y farwolaeth?

£

Cynhwyswch y gwerth hwn yn ffurflen IHT400, blwch 69

**8** Beth yw enw a phrif weithgarwch y busnes neu'r bartneriaeth?

**9** Sut mae'r gwerth ar gyfer y busnes neu'r bartneriaeth wedi'i gyfrifo? Nodwch fanylion yr asedion a'r rhwymedigaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad. Os oes gwerthusiad proffesiynol wedi'i gael, amgaewch gopi

Darparwch gopïau o gyfrifon y 3 blynedd diwethaf

**10** A oes gan y busnes fuddiant mewn partneriaeth?

Na ☐ Ewch i flwch 16

Iawn ☐ Llenwch flychau 11 i 15 ac amgaewch gopi o gytundeb y bartneriaeth. Os nad oes cytundeb ysgrifenedig, disgrifiwch y telerau anffurfiol ym mlwch 25

**11** Dyddiad dechrau'r bartneriaeth DD MM BBBB

**12** Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) y bartneriaeth

**13** Enwau'r bobl a ddarparodd y cyfalaf

**14** Pa gyfraniad a wnaeth pob person i'r cyfalaf?

**15** Sut mae'r elw o'r bartneriaeth yn cael ei rannu?

**16** A yw'r busnes neu'r buddiant mewn partneriaeth i'w werthu o ganlyniad i'r farwolaeth?

Na ☐ Iawn ☐

**17** Cyfanswm y rhyddhad busnes rydych yn ei ddidynnu o'r busnes neu fuddiant mewn busnes Ar gyfer marwolaethau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026, os yw gwerth cyfunol eiddo amaethyddol a/neu fusnes cymwys yn fwy na'r lwfans rhyddhad 100% o £2.5m, bydd unrhyw werth uwchlaw'r terfyn hwn yn cael rhyddhad o 50%. Mae'n rhaid dosrannu'r lwfans rhyddhad o 100% ar draws yr holl eiddo cymwys yn yr ystâd. Am gyfraddau a rhyddhadau, gweler y Nodiadau IHT400

Rhyddhad 100%

£

Rhyddhad 50%

£

Cynhwyswch y rhyddhad busnes yn ffurflen IHT400, blwch 93

## Asedion oedd yn eiddo i'r ymadawedig ac a ddefnyddiwyd gan gwmni a reolir gan yr ymadawedig neu bartneriaeth yr oeddent yn aelod ohoni

Cynhwyswch unrhyw gyfranddaliadau yr oedd yr ymadawedig yn berchen arnynt yn y cwmni ar ffurflen IHT412 Cyfranddaliadau heb eu rhestru a daliadau cyfranddaliadau.

**18**

| Disgrifiwch yr asedion oedd yn eiddo i'r ymadawedig ac a ddefnyddiwyd gan y busnes neu'r cwmni | Gwerth asedion (£) |
|---|---|
| | |
| Cyfanswm gwerth yr asedion | £ |

Cynhwyswch y cyfanswm hwn yn ffurflen IHT400, blwch 69

**19** Beth yw prif weithgarwch y busnes neu'r cwmni a ddangosir uchod?

**20** Beth oedd buddiant yr ymadawedig yn y bartneriaeth neu'r cwmni a ddangosir uchod? Rhowch 'X' mewn un blwch

- ☐ Aelod o bartneriaeth
- ☐ Rheolaeth y cwmni

**21** Cyfanswm y Rhyddhad Busnes rydych yn ei ddidynnu ar yr asedion a ddefnyddir gan y busnes neu'r cwmni (ar gyfer trosglwyddiadau ar ôl 9 Mawrth 1992 bydd hyn bob amser yn gymwys i gael rhyddhad ar gyfradd o 50%, os yw'n gymwys)

£

Cynhwyswch y Rhyddhad Busnes yn ffurflen IHT400, blwch 93

## Rhyddhad Busnes ar roddion oes

Dim ond atebwch y cwestiynau canlynol os ydych yn didynnu Rhyddhad Busnes mewn cysylltiad â throsglwyddiad gydol oes.

**22** A oedd y busnes, y buddiant mewn busnes neu'r ased yn eiddo i'r person a gafodd y rhodd drwy gydol y cyfnod perthnasol (ewch i IHT400, 'Nodiadau')?

Na ☐ Iawn ☐

**23** A fyddai'r busnes, y buddiant mewn busnes neu'r ased yn gymwys i gael Rhyddhad Busnes pe bai'r person a chafodd y rhodd wedi trosglwyddo'r eiddo ar ddyddiad y farwolaeth?

Na ☐ Iawn ☐

**24** A oedd y busnes, buddiant mewn busnes neu ased yn destun contract rhwymol i'w werthu yn union cyn diwedd y cyfnod perthnasol (ewch i IHT400, 'Nodiadau')?

Na ☐ Iawn ☐

## Gwybodaeth ychwanegol

Defnyddiwch y dudalen hon i nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol nad ydych wedi gallu ei rhoi ym mlychau 1 i 24.

25